# 1. Drama'r Geni

Cyflwynydd: Ystyr y gair 'carol' yw cân o lawenydd. Ar hyd y canrifoedd mae Cristnogion wedi cyfansoddi emynau llawen ac wedi eu canu ar ddyddiau gŵyl, fel y Pasg a'r Sulgwyn. Ond cenid y carolau mwyaf llawen adeg y Nadolig wrth iddyn nhw ddod at ei gilydd i ddarllen eto y tudalennau rheiny o'r Beibl sy'n edrych ymlaen at ddyfodiad Crist, a'r hanesion o'r Efengylau sy'n dweud am ei eni ym Methlehem. Bydd ein hoedfa yn cynnwys yr hanesion hyn a rhai o'r carolau sy'n cael eu canu gan ffrindiau Iesu yr adeg hon o'r flwyddyn.

Y PROFFWYDI'N EDRYCH YMLAEN AT DDYFODIAD Y BRENIN YR OEDD DUW WEDI'I ADDO

Darlleniad: [*Addasiad o adnodau o lyfr y Proffwyd Eseia*]

Mae Duw yn mynd i roi arwydd i chi ei fod yn eich caru:
Mae yna ferch sy'n mynd i gael baban,
A bydd yn ei alw yn 'Emaniwel'.
Ystyr yr enw yw 'Duw gyda ni'.

Yna, bydd yr holl bobl sydd wedi byw yn y tywyllwch
Yn cerdded allan i'r goleuni,
Ac fe fyddan nhw mor hapus ag ar ddydd Gŵyl Diolchgarwch.

Mae baban yn mynd i gael ei eni
Fydd yn tyfu i fod yn Frenin i ni.
Bydd mor ddoeth, ac mor gryf â Duw.
A gelwir ef yn 'Dywysog Tangnefedd'.

Mae'ch Duw yn dweud,
Codwch eich calon, fy mhobl,
Rydych wedi dioddef digon
Paratowch ffordd drwy'r tir anial
I'ch Duw gael dod atoch.
Ewch a dywedwch o ben mynyddoedd
'Edrychwch, mae'ch Duw chi'n dod!'

(Eseia 7:14; 9:2, 3, 6 a 40:1 – 3, 9)

Cyflwynydd: Yr Iddewon, pobl Israel, a glywodd y geiriau hyn gyntaf. Nhw sydd wedi ein dysgu i edrych ymlaen at ddyfodiad y brenin yr oedd Duw wedi'i addo. Ymunwn â nhw heno wrth i ni weddïo a chydganu.

**i. NEGES YR ANGEL I MAIR**

Darlleniad: [*Addasiad o adnodau o Efengyl Luc*]

Anfonodd Duw ei angel i dref Nasareth
at ferch ifanc o'r enw Mair.
Roedd hi wedi dyweddïo â dyn o'r enw Joseff,
a oedd yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd.
Dywedodd yr angel, 'Henffych, Mair, yr un y rhoddodd Duw ei ffafr iddi!
Y mae'r Arglwydd gyda thi.
Bendigedig wyt ti ymysg gwragedd.'
Ceisiodd Mair ddyfalu beth oedd ystyr y geiriau hyn.
Yna dywedodd yr angel, 'Paid ag ofni, Mair,
Mae Duw wedi dy ddewis di i fod yn fam i'w Fab ei hun.
Rhaid i ti alw'r baban yn Iesu.
Ystyr yr enw yw 'Mae Duw wedi dod i'n hachub ni'.
Atebodd Mair, 'Sut gall hyn ddigwydd?'
Dywedodd yr angel, 'Daw'r Ysbryd Glân arnat.
Gall nerth Duw wneud pob peth.
Does dim byd yn amhosibl i Dduw.'
Atebodd Mair, 'Rwy'n forwyn i'r Arglwydd; bydded i mi yn ôl dy air di,'
Ac aeth yr angel i ffwrdd.

(Luc 1:26–38)

Cyflwynydd: Gall nerth Duw wneud pob peth, hyd yn oed y pethau yr ydan ni'n gredu sy'n amhosib. Gogoniant i Dduw, gogoniant i Dduw ein Tad.

**ii. GENI IESU YM METHLEHEM**

Darlleniad: [*Addasiad o adnodau o Efengyl Luc*]

Yr adeg yma, penderfynodd Ymerawdwr Rhufain
gyfri faint o bobl oedd yn ei Ymerodraeth.
Gorchmynnodd i bob un gofrestru
yn y dref lle'r oedd ei deulu wedi'i eni.
Felly, cychwynnodd Joseff o Nasareth yn y gogledd
i dref ei deulu, sef Bethlehem yn y de,
er mwyn rhoi ei enw ar y gofrestr.

Aeth Mair, ei ddyweddi, gydag ef
ac roedd hi'n disgwyl babi.
Pan oedden nhw ym Methlehem
Daeth hi'n amser iddi eni ei babi.
Bachgen oedd e, ei phlentyn cyntaf.
Lapiodd ef mewn dillad babi a'i osod mewn preseb
lle'r oedd pobl yn cadw bwyd anifeiliaid
am nad oedd ystafell iddyn nhw yn y gwesty.

(Luc 2:1–7)

Cyflwynydd: Pan gafodd Iesu ei eni, doedd gan bobl ddim lle iddo. Cafodd ei osod o'r neilltu. Oes yna bobl heddiw nad oes gynnon ni le iddyn nhw yn ein bywydau? Oes yna bobl y byddwn yn eu gosod o'r neilltu ac yn anghofio amdanyn nhw?

**iii. NEGES YR ANGYLION I'R BUGEILIAID**

Darlleniad: [*Addasiad o adnodau o Efengyl Luc*]

Ar y bryniau uwchben Bethlehem y noson honno,
roedd bugeiliaid yn cymryd eu tro i ofalu am eu defaid.
Yn sydyn, dyma angel Duw yn sefyll yn eu hymyl
a gogoniant Duw yn disgleirio o'u hamgylch.
Yr oedd ofn mawr arnyn nhw.
Ond dywedodd yr angel, 'Peidiwch ag ofni.
Mae gen i newyddion da i chi,
a ddaw â llawenydd i'r byd i gyd.
Heno ym Methlehem, mae baban wedi'i eni.
Ef yw'r 'un mae Duw wedi ei ddewis' – y Meseia;
a bydd yn achub y byd!
Dyma sut y byddwch yn ei adnabod:
fe welwch faban wedi'i lapio mewn dillad baban
yn gorwedd mewn preseb o wair.'
Yn sydyn, roedd llond yr awyr o angylion.
Roedden nhw i gyd yn moli Duw ac yn canu:
'Gogoniant i Dduw yn y Goruchaf,
a thangnefedd i'w bobl ar y ddaear.'

(Luc 2:8–14)

Cyflwynydd: Daeth neges yr angylion â llawenydd i'r byd i gyd, ac yn arbennig i'r bobl dlawd. Boed iddi ddod â llawenydd i ninnau hefyd, a heddwch i'n daear.

**iv. Y BUGEILIAID WRTH Y PRESEB**

Darlleniad: [*Addasiad o adnodau o Efengyl Luc*]

Pan ddiflannodd yr angylion,
trodd y bugeiliaid at ei gilydd a dweud,
'Gadewch i ni fynd i Fethlehem
i weld beth sydd wedi digwydd:
yr hyn y dywedodd Duw wrthon ni amdano.'
Felly, dyma nhw'n brysio i'r dre
ac yno, fe welson nhw Mair a Joseff,
a'r babi yn gorwedd mewn preseb.
A dyma nhw'n dweud wrth bawb
am yr hyn ddywedodd Duw wrthyn nhw am y babi arbennig hwn.

(Luc 2:15–17)

Cyflwynydd: Dyma'r bugeiliaid yn mynd ac yn dweud wrth bawb beth oedd Duw wedi'i ddweud wrthyn nhw. Dywedwn ninnau hefyd wrth bawb fod Iesu wedi ei eni ac mai ef yw Gwaredwr y Byd.

**v. Y GWŶR DOETH YN DOD I WELD IESU**

Darlleniad: [*Addasiad o adnodau o Efengyl Mathew*]

Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem
daeth doethion o'r dwyrain
at y Brenin Herod yn Jerwsalem,
a gofyn,
'Ble mae'r baban sydd newydd ei eni'n frenin yr Iddewon?
Gwelsom ei seren yn y dwyrain
ac rydyn am ei addoli ef.'
Roedd y Brenin Herod yn flin
wrth eu clywed yn siarad am frenin newydd.
Holodd y prif offeiriaid ble fyddai yr
'un y mae Duw wedi'i ddewis' yn cael ei eni.
Eu hateb oedd: 'Ym Methlehem.
Dyna ddywedodd y proffwyd.'
Felly, galwodd Herod y doethion
a'u hanfon i Fethlehem i chwilio am y baban.
Dywedodd, 'Dewch yn ôl i ddweud ble mae e
er mwyn i minnau gael ei addoli hefyd!'
Cychwynnodd y doethion.
Roedd y seren a welson nhw yn y dwyrain
yn parhau i'w harwain, a daethon nhw i'r union fan lle'r oedd y preseb.
Yno, dyma nhw'n ymgrymu gerbron Mair a'r baban
ac yn agor yr anrhegion oedd ganddyn nhw,
sef aur a thus a myrr.

(Mathew 2:1–12)

Cyflwynydd: Plygodd y doethion ar eu gliniau a rhoi popeth oedd ganddyn nhw i Iesu.
Dyna bobl ddoeth oedden nhw!

**vi. GENI'R IESU**

Darlleniad: [*Addasiad o adnodau o Efengyl Ioan*]

Does 'na ddim amser wedi bod
pan nad oedd Duw'n dweud wrth bobl ei fod yn eu caru.
O'r dechrau cyntaf, ac ar hyd y canrifoedd
dyna y mae wedi'i ddweud wrth bawb, ymhob man.
Ond nid yw pawb wedi deall
yr hyn roedd Duw yn ei ddweud wrthyn nhw,
hyd yn oed pan fyddai Duw'n dweud,
'Dewch i berthyn i fy nheulu i.'
Felly, daeth Gair Duw yn ddyn,
gan fyw bywyd dynol fel ni,
er mwyn i ni allu cyffwrdd a theimlo'r hyn
roedd Duw'n ei ddweud wrthon ni.
Daeth y Gair yn gnawd a byw yn ein plith.
Ynddo ef gallwn weld y Duw sy'n anweledig.
Ynddo ef gwelwn fod Duw yn ein caru. (Ioan 1:1–18)

Cyflwynydd: Dim ond un peth mae Duw'n ei ddweud drwy ei air. Mae'n dweud, 'Rwy'n caru pobl ymhob man, ymhob lle, bob amser.' Allwn ni ddweud hynny?

Gweddi: Arglwydd Dduw, ein Tad nefol
Heddiw rydan ni wedi ymuno â'r angylion, y bugeiliaid a'r doethion i ganu mawl i ti.
Diolchwn i ti eto am ganiatáu i ni weld dy fab, Iesu Grist,
oherwydd wrth ei weld ef, rydan ni hefyd yn dy weld di.
Hwn yw'r dydd a wnaeth ein Duw.
Diolchwn amdano a llawenhawn ynddo. Amen

**DIWEDD**